| | | |
|---|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Myfyrwyr | |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | Fersiwn 2 | |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr/Students | |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): /Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *AEC Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Myfyrwyr* |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen: Document Owner:** | Dirprwy Brif Weithredwr Profiadau Pobl a Diwylliant<br>Deputy Chief Executive People Experiences & Culture | | |
| **Ymgynghoriad/ Consultation:** | Cyngor Myfyrwyr/Cynrychiolwyr Myfyrwyr<br>Student Council/Student Representatives | | |
| Dyddiad cymeradwyo / Date Approved | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / *Grŵp Cyfathrebu a Diwylliant* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | ***7 Mai 2025***<br>***7th May 2025*** |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | *Amherthnasol* |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | *Amherthnasol* |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | *Amherthnasol* |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | *22 Mai 2025 / 22nd May 2025* |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Dyddiad Adolygu:** | 30 Mai 2027<br>31st May 2027 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff . Please number each section and paragraph

**Tabl Cynnwys Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Myfyrwyr**


| | |
|---|---|
| 1. Diben | 2 |
| 2. Cwmpas | 2 |
| 3. Egwyddorion | 3 |
| 4. Cyfrifoldebau Myfyrwyr | 3 |
| 5. Seiberfwlio ac Aflonyddu | 4 |
| | |


## 1. Diben

1.1 Yng Ngholeg Cambria rydym yn cydnabod bod sianeli cyfryngau cymdeithasol yn darparu cyfleoedd unigryw i fyfyrwyr gymryd rhan mewn trafodaethau, rhannu gwybodaeth am bynciau o ddiddordeb ac y gellir cyfoethogi dysgu ac astudio trwy weithgarwch ac ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd werthfawr o alluogi myfyrwyr i aros mewn cyswllt â ffrindiau a'u teuluoedd gan wella eu bywydau personol a chyfleoedd gyrfa.

1.2 Mae'r polisi hwn yn cynnwys gofynion ar gyfer cydymffurfio gyda'r bwriad o gefnogi myfyrwyr i wneud y defnydd gorau o'r cyfryngau cymdeithasol heb gyfaddawdu ar ddiogelwch personol, cyfleoedd gyrfa bresennol/yn y dyfodol; (yn enwedig os yw myfyrwyr yn astudio ar gyfer rhaglen neu ddyfarniad achredig proffesiynol) a/neu enw da Coleg Cambria.

1.3 Mae'r polisi hwn yn:

- Darparu gwybodaeth i fyfyrwyr am y safonau disgwyliedig o ymddygiad ar gyfryngau cymdeithasol ac yn amlygu'r risgiau posib y gall ei achosi.
- Diffinio'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol at ddiben Coleg Cambria.
- Yn amlygu'r risgiau posib o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol at ddefnydd personol ac at ddefnydd gwaith.
- Codi ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol y DU a pholisiau Coleg Cambria.
- Lleihau'r effaith negyddol bosib i enw da myfyrwyr a Choleg Cambria oherwydd defnydd myfyrwyr o gyfryngau cymdeithasol.

## 2. Cwmpas

2.1 Mae'r polisi hwn yn cwmpasu pob agwedd ar gyfryngau cymdeithasol/rhwydweithio cymdeithasol, mewn unrhyw swyddogaeth, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig

i wasanaethau fel Facebook, Twitter, LinkedIn, Instagram, YouTube, Snapchat, Whatsapp, Tik Tok, wikis, blogiau proffil ac apiau cyfathrebu electronig eraill.

2.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr sydd wedi eu cofrestru yng Ngholeg Cambria, gan gynnwys myfyrwyr addysg bellach ac addysg uwch, prentisiaid, myfyrwyr dysgu yn y gwaith a myfyrwyr sy'n oedolion yn y gymuned. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i unrhyw ddysgwyr 14-16 oed sy'n mynychu'r coleg naill ai ar gyrsiau llawn amser neu fel rhan o gyrsiau cyswllt ysgolion. Os bydd mater yn codi sy'n ymwneud â myfyrwyr 14 i 16 oed, rhaid cysylltu â'r awdurdod lleol a/neu'r ysgol ar y dechrau i sicrhau bod staff yr ysgol yn cadw at ganllawiau'r llywodraeth sydd ar waith ar gyfer lleoliadau ysgol a bod protocolau sydd ar waith o fewn lleoliad ysgol yn cael eu dilyn.

## 3. Egwyddorion

3.1 Bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod myfyrwyr yn;

- Gwerthfawrogi'n llawn y goblygiadau o ran enw da, agwedd cyfreithiol a moesegol ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau eraill o gyfathrebu ar-lein.
- Deall bod posibilrwydd i'r cyfryngau cymdeithasol gael eu camddefnyddio, boed yn fwriadol neu fel arall, ac y gallai'r goblygiadau fod yn ddifrifol.

3.2 Mae'r polisi hwn yn rhan o grŵp o bolisïau cysylltiedig sy'n nodi:

- Beth gall myfyrwyr ei ddisgwyl gan y Coleg (Cytundeb Dysgwyr).
- Beth mae'r Coleg yn ei ddisgwyl gan ei holl fyfyrwyr (Cod Ymddygiad Myfyrwyr).
- Y camau i'w cymryd os torrir y Cod Ymddygiad (Polisi Ymddygiad Cadarnhaol Myfyrwyr)
- Y safonau a osodwyd gan y Coleg ar gyfer defnydd derbyniol o'i galedwedd TG a'i adnoddau meddalwedd gan fyfyrwyr (Polisi Defnydd Derbyniol o TG i Fyfyrwyr)

## 4. Cyfrifoldebau Myfyrwyr

Fel myfyriwr, rydych chi'n gyfrifol am sicrhau eich bod chi'n dilyn y telerau canlynol wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a'ch bod yn cyfathrebu'n gyfrifol ar-lein ac yn monitro, diweddaru a rheoli'r cynnwys rydych wedi'i bostio yn gyfrifol.

Safonau Ymddygiad Disgwyliedig

4.1 Os oes myfyriwr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, nhw sy'n gyfrifol am sut y maent am ei ddefnyddio i gyfathrebu. Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd nad yw popeth y maent yn ei bostio ar gyfryngau cymdeithasol yn aros yn breifat (hyd yn oed ar broffiliau neu grwpiau caeedig), a gall fod yn anodd rheoli pa mor eang y mae eich deunydd yn cael ei rannu neu ei gopïo. Mae'r safonau ymddygiad a ddisgwylir yn y byd 'go iawn' hefyd yn berthnasol ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol/sianeli rhwydweithio.

4.2 Ni ddylai ymddygiad ar-lein torri rheoliadau Coleg Cambria, polisïau na mynd yn erbyn cyfrifoldebau sydd gan fyfyrwyr. Ni ddylai eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol amharu ar hawliau na phreifatrwydd Coleg Cambria, myfyrwyr eraill a staff.

4.3 Mae'r canlynol yn rhestr o esiamplau o ymddygiad annerbyniol ar-lein:

- Rhannu gwybodaeth gyfrinachol (gall gynnwys gwaith ymchwil nad yw eto yn y parth cyhoeddus, gwybodaeth am gyd fyfyrwyr neu faterion am staff a phersonél, dogfennau neu wybodaeth nad yw'n gyhoeddus neu heb ei chymeradwyo eto).
- Iaith casineb o unrhyw fath (gweler yr adran isod am 'Seiberfwlio a Throsedd Gasineb')
- Rhannu manylion am gwynion, gwrandawiadau disgyblu neu achosion (gan gynnwys achosion cyfreithiol) gyda Choleg Cambria.
- Defnyddio cyfrifon yn enw person arall heb eu caniatâd. Sylwadau neu ddeunydd, gan gynnwys delweddau, sy'n cael ei gyfrif fel bwlio neu sy'n fygythiol, yn aflonyddu, yn wahaniaethol, yn anghyfreithlon, yn anfoesol, yn anweddus, yn ddifenwol neu'n elyniaethus tuag at unrhyw unigolyn neu endid.

4.4 Fel myfyriwr, mae disgwyl i chi ymddwyn mewn modd sy'n dangos parch tuag at staff a myfyrwyr Coleg Cambria gan sicrhau eich bod yn dilyn unrhyw godau ymddygiad proffesiynoldeb a chyfrinachedd ar gyfer eich disgyblaeth astudio benodol.

4.5 Ni ddylai myfyrwyr geisio cysylltu ag unrhyw aelod o staff drwy gyfryngau cymdeithasol a rhaid iddynt ddefnyddio systemau a gaiff eu darparu gan y coleg yn unig i gyfathrebu ag aelodau o staff y coleg.

## 5. <u>Seiberfwlio ac Aflonyddu</u>

5.1 Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd croesawgar a diogel lle gall yr holl staff a myfyrwyr ffynnu a chyrraedd eu llawn botensial, ac sy'n rhydd rhag bwlio ac aflonyddu. Bwlio sy'n cymryd lle ar-lein yw seiberfwlio a gall ddigwydd trwy neges destun, apiau, fforymau cyfryngau cymdeithasol a gall gynnwys anfon, postio neu rannu cynnwys niweidiol, ffug am rywun arall. Gall gynnwys rhannu gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol am rywun arall gan achosi embaras neu gywilydd.

5.2 Ymddygiad dieisiau, ymosodol yw aflonyddu sy'n dychryn neu yn gwneud i chi deimlo eich bod y cael eich bychanu. Gall fod yn ddigwyddiad ar ben ei hun neu ochr yn ochr â ffurfiau eraill o wahaniaethu. Gall yr ymddygiad dieisiau gynnwys:

- Iaith sarhaus ar lafar neu ar bapur.
- Sylwadau ymosodol trwy e-bost, trydar neu dros wefannau rhwydweithio cyfryngau cymdeithasol. Gall gynnwys ymddygiad bygythiol neu ymosodol, delweddau a graffiti, lledaenu celwyddau neu straeon ffug. Gall fod ar ffurf ystumiau corfforol, sylwadau sarhaus neu fygythiol neu bostio sylwadau/lluniau ac ati.
- Ystumiau wyneb, jôcs neu ddynwared unigolyn yn fwriadol gyda'r bwriad o aflonyddu neu fychanu.

5.3 Gall unrhyw achos o dorri'r polisi hwn arwain at gamau disgyblu a bydd yn cynnwys cyfeiriad at y cyfryngau cymdeithasol neu gyhoeddiad digidol y gellir ei ddefnyddio fel

tystiolaeth. Fel rhan o'r polisi hwn, mae'n bosibl y gofynnir i chi ddileu'r post, bydd methu â gwneud hynny yn arwain at gamau disgyblu. Dylid nodi y gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn myfyriwr gwaeth beth fo'r rhwydwaith neu ddyfais a ddefnyddir i gyrchu'r deunydd ar-lein.

5.4 Gall y coleg dynnu hawliau i ddefnyddio unrhyw gyfryngau cymdeithasol trwy ei wasanaeth WiFi yn ôl ar unrhyw adeg.

5.5 Os ydych chi'n teimlo eich bod chi wedi cael eich effeithio gan ymddygiad ar-lein pobl eraill, cysylltwch â'r Swyddogion Llesiant yn yr adran Gwasanaethau Myfyrwyr sy'n gallu cynnig cymorth i chi.

DIWEDD